GWASANAETHAU MYFYRWYR
GWASANAETHAU MYFYRWYR


PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Gwasanaeth Asesu Diagnostig

**Mae Canolfan Asesu Bangor yn darparu asesiadau ar gyfer myfyrwyr ag Anawsterau Dysgu Penodol (SpLD), yn cynnwys dyslecsia a dyspracsia.**

**Am ragor o wybodaeth:**
**Ffôn: 01248 383030**
**E-bost: assessment@bangor.ac.uk**

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**



## Beth yw asesiad?

Mae asesiad llawn yn cynnwys nifer o dasgau sy'n defnyddio amrediad o brofion safonol er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau mewn galluoedd gwybyddol. Mae'r rhain yn asesu:

- Gallu geiriol.
- Gallu gweledol/ gofodol.
- Rhesymu.
- Cof gweithredol.
- Cyflymder prosesu.
- Canolbwyntio.
- Cydsymudiad.
- Medrau ffonolegol.
- Cymhwysedd mewn llythrennedd: sillafu, darllen, ysgrifennu, a/neu rifedd.

Mae ar aseswyr hefyd angen gwybodaeth am eich hanes addysgol, yn cynnwys eich dogfennau ysgol neu sgrinio gan y tîm dyslecsia.

## Pwy sy'n gwneud yr asesiad hwn?

Mae ein haseswyr cymwysedig yn bodloni canllawiau'r llywodraeth ar gyfer asesu ym maes addysg uwch, ac wedi'u cofrestru gyda'u cyrff proffesiynol.

Mae ein holl aseswyr yn gymwys i nodi Anawsterau Dysgu Penodol (SpLD).

## Pa mor hir fydd yr asesiad yn ei gymryd?

Mae'r asesiad diagnostig yn cymryd oddeutu tair awr, ond bydd adegau pan fyddant yn cymryd ychydig yn fwy o amser oherwydd bod angen gwneud tasgau ychwanegol .

Rhoddir adroddiad i chi a gaiff ei e-bostio atoch o fewn mis I'r asesiad. Bydd yr adroddiad yn amlygu eich cryfderau a gwendidau, ac efallai y bydd yn argymell eich bod yn gymwys i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA).

## Costau asesiad

Mae yna gost am asesiad diagnostig ar gyfer SpLDs. Serch hynny, mae myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor yn derbyn gostyngiad sylweddol. Cewch fwy o fanylion ar ein gwefan ar waelod y daflen hon.

## A allaf gael fy asesu er nad wyf am ddod i Fangor i astudio?

Darperir y gwasanaeth hwn gan Ganolfan Dyslecsia Miles. Gellwch gysylltu â nhw drwy anfon e-bost at

dyslex-admin@bangor.ac.uk neu drwy ffonio 01248 382203.